## Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/*Clerk*: Fflur Lawlor
E-bost/*E-mail*: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk

**Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron mis Gorffennaf / Tregaron Town Council July Meeting**
**Nos Lun / *Monday* 28.07.2025**

7.00yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / *Memorial Hall*

**COFNODION CYFARFOD MIS GORFFENNAF / JULY MEETING MINUTES**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **PRESENNOL / PRESENT:** Cyng/Cllr Rhian Hughes (Cadeirydd/Chair), Rhian Jones, Arwel Jones, Gwion James, Jo- Alice Davies, Owain Pugh a Dafydd Richards.<br>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor<br>PSCO John Evans<br>Cyng/Cllr Ifan Davies – Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion County Council Local Member | |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES**: Cyng / Cllr. Meirian Morgan, Sian Jones a Catherine Hughes | |
| 3. | **SIARADWR / SPEAKER**<br>Rhoddodd Angie Polky gyflwyniad ar y gwaith a'r ymchwil y mae hi ac aelodau'r gymuned wedi'i wneud ar gyfer yr Ardd Gymunedol.<br>Penderfynwyd y byddai'r grŵp, dan gyfarwyddyd Angie, yn parhau â'r gwaith ac yn penodi Cynghorydd fel cyswllt rhwng y grŵp cymunedol a Chyngor y Dref ar gyfer y prosiect. Clerc i drefnu cyfarfod ar y safle.<br>Angie Polky gave a presentation on the work and research she and members of the community have done for the Community Garden.<br>It was decided for the group, under Angie's direction to continue with the work and appoint a Councillor as a link between the community group and the Town Council for the project. Clerk to arrange a site visit. | |
| 4. | **MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS**<br>Estynnwyd llongyfarchiadau i Osian Jones ac Elis Jones a chwaraeodd yn ddiweddar i Academi Bowlio Cymru Dan 25.<br>*Congratulations were extended to Osian Jones and Elis Jones who recently played in the Wales Under 25 Bowling Academy.* | |
| 5. | **ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT**<br>Roedd PSCO John Evans yn bresennol – rhai achosion i'w adrodd dros y mis diwethaf.<br>*PSCO John Evans was present – few things to report from the last month.* | |
| 6. | **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**<br>Dim i'w gofnodi.<br>*Nothing to report.* | |
| 7. | **CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 16/06/2025**<br>Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir.<br>*It was agreed that this was a true record of the minutes.* | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Arwel Jones<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Dafydd Richards | |
| 8. | **MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES**<br>Nodwyd bod Cyng Ifan Davies yn bresennol yn cyfarfod mis Mehefin.<br>It was noted that Cllr Ifan Davies was present at the June meeting. | |
| 9. | **CYNGOR SIR CERDIGION COUNTY COUNCIL**<br>A) Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / *Information received from CCC –*<br>Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / *Emails forwarded to Councillors prior to meeting.*<br>• 17/06/25 – Cau Ffordd Dros Dro / *Temporary Road Closure*: B4342A Tregaron<br>• 17/05/25 - Grant Cyfalaf Man Chwarae Ceredigion / *Ceredigion Play Area Capital Grant*<br>• 19/06/25 - Bwletin Mis Mehefin Cynnal y Cardi *June Newsletter*<br>• 24/06/25 – Gwborau Caru'ch Cymuned - Dyddiad Cau yn agosau/ *Closing date approaching – Caru'ch Cymuned Awards*<br>• 27/06/25 - Bwletin Costau Byw Ceredigion: Mynediad at Fwyd Iach \| *Ceredigion Cost of Living Bulletin: Access to Healthy Food*<br>• 02/07/25 - Cyfleoedd Ariannu / *Funding Opportunities*<br>• 04/07/25 - Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / *Special Events Road Closure: Carnifal Tregaron Carnival 2025*<br>• 04/07/25 - Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi 2025 \| *Engagement and Participation Policy 2025*<br>• 17/07/25 - Bwletin Mis Gorffennaf Cynnal y Cardi *July Bulletin*<br>• 21/07/25 - Cau Ffordd Dros Dro / *Temporary Road Closure*: C1005 *Tynreithyn, Tregaron*<br><br>B) Diweddariad gan yr Aelod Lleol / *Update from the Local Member,* Cyng/*Cllr Ifan Davies –*<br>• Dim i'w gofnodi.<br>*Nothing to report.* | |
| 10. | **CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS**<br>Balans y Banc / Bank Balance –<br>• Cyfrif Busnes Cyfredol / Business Current – £10,291.58<br>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve – £14,141.41<br>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Current (Cadeirydd / *Chairman*) – £1,925.26<br>• Cyfrif Busnes wrth gefn / Business Reserve – £845.42<br><br>A)<br>Taliadau mis Mehefin / June payments –<br>• Cyflog Gweithiwr Strydlun / *Streetscene worker salary* £322.33<br>• Cyflog y Clerc / *Clerk salary* £353.10<br>• HMRC £168.80<br>• G.Jones (Archwiliad Mewnol/Internal Audit) £50.00<br>• Robert's Garden Centre £1130.04<br>• CCF £36.20<br><br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/Cllr Owain Pugh<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/Cllr Rhian Jones | Clerc / *Clerk* |

| | | |
|---|---|---|
| | B)<br>Incwm / Income –<br>• 31/07/2025 – Precept 2 - £10,000<br><br>C)<br>Archwiliad Cymru / Audit Wales –<br>Wedi cwblhau archwiliad 2023/2024 Cyngor Tref Tregaron.<br>*Completed Tregaron Town Councl annual audit for 2023/2024*<br><br>D)<br>Gofynnodd y Clerk os byddai pawb yn hapus i dalu anfonebau mis Gorffennaf/Awst gyda chaniatâd gan fod dim cyfarfod tan mis Medi. Cytunodd pawb. Clerc i ebostio pawb gyda rhestr o'r taliadau.<br><br>*The Clerk asked if everyone would be happy to pay the July/August invoices with approval as there was no meeting until September. Everyone agreed. Clerk to email a list of all payments to all members for approval.*<br><br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Owain Pugh<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Rhian Jones | |
| 11. | **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT**<br>Dim i'w gofnodi.<br>*Nothing to report.*<br><br>Mae angen gwneud y canlynol -<br>• Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Stryd y Capel, Heol Pontrhydefendigaid.<br>• Glanhau strydoedd eraill yn eu tro.<br>• Glanhau o amglych Henry Richard a'r meinciau tu flaen Rhiannon<br><br>*The following needs to be done –*<br>• *Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydfendigaid Road.*<br>• *Other streets to be cleaned in rotation.*<br>• *Clean around Henry Richard and the benches by Rhiannon* | |
| 12. | **ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS**<br><u>Is-bwyllgor Parc a Blodau / *Park & Flowers*</u><br>• <u>Parc / *Park*</u><br>  • Gwiriadau bob wythnos Iechyd a Diogelwch y Parc i barhau - Cyng. Rhian Hughes i gynnal y gwiriadau yn Mehefin/Gorffennaf. Diolchwyd i Cyng Arwel Jones am wneud mis diwethaf. Gwiriadau bob wythnos i'w wneud dros yr haf. *Weekly Health & Safety checks of the Park to continue –Cllr. Rhian Hughes to carry out the checks for June/July. Thanks was extended to Cllr Arwel Jones for doing last month. Weekly checks to be carried out over the summer.*<br><br>• <u>Blodau / *Flowers*</u><br>  • Dyfrhau'r blodau – Diolch i'r Cyng Gwion James am gydlynu dyfrio'r blodau. | Cyng / *Cllr* Rhian Hughes |

| | | |
|---|---|---|
| | *Watering the flowers – Thanks to Cllr Gwion James for co-ordinating the watering of the flowers.*<br><br>Rota fel a ganlyn / *Rota as follows* (Aelodau is-bwyllgor Parc a Blodau / *Park & Flowers sub committee members*) –<br>Mehefin / *June* – Cyng / *Cllr* Gwion James & Dafydd Richards<br>Gorffennaf / *July* – Cyng / *Cllr* Owain Pugh & Rhian Jones & Rhian Hughes<br>Awst / *August* – Cyng / *Cllr* Jo-Alice Davies & Sian Jones<br>Medi / *September* – Cyng / *Cllr* Gwion James & Dafydd Richards | |
| 13. | **PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS**<br>Prif flaenoriaethau'r Cyngor Tref yw / *The Town Council's main priorities are -*<br><br>1) Llwybr Ystwyth / *Ystwyth Trail*<br>2) Cae pob tywydd & Trac Rhedeg / *All weather pitch & Running Track*<br>3) Stondinau beiciau & Ffynhonnau dŵr / *Bike stands / Water fountains*<br>4) Gardd Gymunedol / *Community Garden*<br>5) Prosiect Peilot Cau Sgwâr / *Square Closure Pilot project*<br><br>Prif flaenoriaeth y Cyngor Tref am 2025 yw prosiect Llwybr Ystwyth. Cyng Arwel Jones i symud y prosiect ymlaen ac i hysbysu'r Cyngor Tref am unrhyw ddatblygiadau.<br>*The Town Council's main priority for 2025 is the Ystwyth Trail project. Cllrs. Arwel Jones to move the project forward and to keep the Town Council informed of any developments.*<br><br>Cynllun Prosiectau'r Dyfodol – Cynghorwyr i gymryd cyfrifoldeb am un prosiect ac arwain –<br><br>*Future Projects Plan – Councillors to take responsibility for one project and lead –* | |

| | Prosiect / *Project* | Pwy / *Who* | Diweddariad / *Update* |
|---|---|---|---|
| 1. | Llwybr Ystwyth / *Ystwyth Trail* | Cyng/*Cllr* Arwel Jones | Ar waith<br><br>*Ongoing* |
| 2. | Gwefan i'r dref a'r Bwrdd Digidol / *Town Website & Digital Board* | Cyng/*Cllr* Meirian Morgan & Arwel Jones Clerc/*Clerk* | Ar waith – Gwelir isod<br>*Ongoing – See below* |
| 3. | Ffynnon Garon | Cyng/*Cllr* Rhian Jones & D. Roberts | Ar waith<br>*Ongoing* |
| 4. | Gardd Gymunedol / Community Garden | Cyng/Cllr Rhian Hughes & Catherine Hughes | Aros am y brydles gan CSC<br>Waiting for the lease from CCC<br><br>Ffes 2 Ar waith – yn y gwanwyn/haf<br>Phase 2 Ongoing – in the spring/summer |

3. *Ffynnon Garon*
   - Cyng Arwel Jones i gysylltu â TTS ynglŷn â gwaith yn Ffynnon Garon.
     *Cllr Arwel Jones to contact TTS with regards to work at Ffynnon Garon.*

| | | |
|---|---|---|
| | 5. Gardd Gymunedol / *Community Garden*<br>- Cyngor Tref i gydweithio gyda A.Polkey ac aelodau'r gymuned i symud y prosiect ymlaen.<br>*Town Council to work with A.Polkey and members of the community to move the project forward.* | |
| 14. | **CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS**<br>Dim i'w gofnodi.<br>*Nothing to report.* | |
| 15. | **UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES**<br>Dim i'w gofnodi.<br>*Nothing to report.* | |
| 16. | **GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE**<br>16.1 –<br>Cylchlythyr Aelodau CIG Mehefin a Gorffennaf 2025<br>*WAW Member' Newsletter June & July 2025*<br><br>16.2 –<br>Taflenni newydd ar gyfer sesiynau gwyliau haf yr ysgol – RAY Ceredigion<br>*New flyers for school summer holidays sessions – RAY Ceredigion*<br><br>16.3 –<br>Cwmpasu Darpariaeth Ieuenctid – Cyfrifiad yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol<br>*Scoping Youth Provision – National Youth Agency Census*<br><br>16.4 –<br>Llythyr at Gynghorwyr Tref yng Ngheredigion – Ymddiriedolwyr Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion<br>*Letter to Town Councillors in Ceredigion – Friends of the Ceredigion Museum Charity* | |
| 17. | **UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**<br>17.1 –<br>Llysgennad Heddwch – Cyngor Tref Tregaron – wedi derbyn Rol Disgrifiad.<br>*Ambassador of Peace – Tregaron Town Council – Role Description received.*<br><br>17.2 –<br>Cyfrif Tâl 'Gratuity' - mae angen canslo'r taliad misol gan nad yw'r cynghorau bellach yn cael gwneud y taliad hwn oherwydd deddfwriaeth yn 2012. Y clerc i edrych ar gynllun pensiwn fel opsiwn.<br><br>*Gratuity Account - the monthly payment needs to be cancelled as due to legislation in 2012 councils are no longer allowed to make this payment. Clerk to investigate a pension scheme as an option.*<br><br>17.3 –<br>Tendr – Golau Nadolig –<br>Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn ymchwilio i lunio tendr ar gyfer goleuadau Nadolig y dref.<br>*It was decided for the Clerk to research into putting together a tender for the town Christmas lights.*<br><br>17.4 – | Clerc / *Clerk*<br><br>Clerc / *Clerk* |

| | | |
|---|---|---|
| | Ciosg Ffôn Coch - Sgwâr Tregaron - Mae BT wedi anfon contract i drosglwyddo perchnogaeth y ciosg i Gyngor y Dref. Pawb yn gytûn.<br>*Red Phone Kiosk - Tregaron Square - BT have sent a contract to transfer the owenership of the kiosk to the Town Council. All in agreement.*<br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Owain Pugh<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Arwel Jones<br><br>17.5 –<br>E-bost gan Jayne, Gweithiwr Ymgysylltu i Cyfle Cymru – hoffai fynychu i gyflwyno gwybodaeth am brosiect cyfredol. Penderfynwyd ei gwahodd i fynychu cyfarfod mis Hydref.<br>*Email from Jayne, Engagement Worker for Cyfle Cymru – would like to attend to present information on a current project. It was decided to invite her to attend the October meeting.*<br><br>17.6 –<br>Mae'r Cynghorydd Catherine Hughes wedi derbyn cais i gydlynu cyfarfod ynghylch israddio gwasanaethau yn Ysbyty Bronglais - pawb yn gytûn.<br>*Cllr. Catherine Hughes had received a request to co-ordinate a meeting with regards to the downgrading of services at Bronglais Hospital - all in agreement.*<br><br>17.7 –<br>Cyng / *Cllr* Gwion James<br>Carnifal Tregaron yn cael ei gynnal ar 02/08/25<br>Tregaron Carnival is being held on 02/08/25<br><br>17.6 –<br>Cyng / *Cllr* Dafydd Richards<br>Mae angen trwsio'r cordyn ar bolyn y faner - y Cynghorydd Owain Pugh a Dafydd Richards i edrych arno.<br>*The cord on the flag pole needs fixing - Cllr Owain Pugh and Dafydd Richards to take a look at it.*<br><br>17.7 –<br>Cyng */ Cllr* Owain Pugh<br>Cerflun Twm Sion Cati - trafodwyd hyn yn y cyfarfod diwethaf ac mae ar y gweill.<br>*Twm Sion Cati Statue - was discussed last meeting and it's in hand.*<br><br>17.8 –<br>Cyng / Cllr Arwel Jones<br>Er gwybodaeth, mae'r cais am y 'astroturf' wedi'i wrthod - nid yw yn ddigon uchel ar restr flaenoriaethau Hoci Cymru.<br>*For information, the application for the astro turf has been rejected – it is not high enough on Hockey's Wales priority list.* | Clerc / *Clerk*<br><br>Clerc / *Clerk*<br><br>Cyng / *Cllr* Dafydd Richards & Owain Pugh |
| | Terfynwyd y cyfarfod / *Meeting was closed* | |